PWYLLGOR CRAFFU IECHYD A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

DYDD MERCHER, 5 HYDREF 2022

PRESENNOL Cynghorydd H.A.L. Evans (Cadeirydd)

Cynghorwyr (Yn y Siambr):

M. James	H. Jones

Cynghorwyr (Yn rhithwir):

B.A.L. Roberts	B. Davies	K. Davies	M. Donoghue
A. Evans	J.P. Jenkins	F. Walters	P.T. Warlow
J. Williams	J. Tremlett		

Hefyd yn bresennol (Yn rhithwir):
Y Cynghorydd J. Tremlett, yr Aelod Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol;

Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):
J. Morgan, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymunedau
A. Bracey, Pennaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion
A. Thomas, Gyfrifydd Grwp
A. Williams, Pennaeth Y Gwasanaethau Integredig
J. Owens, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Hefyd yn bresennol (Yn rhithwir):
J. Morgan, Pennaeth Cartrefi a Chymunedau Mwy Diogel
R. Page, Uwch Reolwr Cymorth Busnes
K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
S. Rees, Cyfieithydd Ar Y Pryd
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin ac o bell: 2.00 yp - 3.40 yp

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB
Cafwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorydd D. Owen.

2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL GAN GYNNWYS UNRHYW CHWIPIAU PLEIDIAU A RODDIR MEWN YMATEB I UNRHYW EITEM AR YR AGENDA

Y Cynghorydd	Rhif(au) y Cofnod	Y Math o Fuddiant
M. James	**4.** Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol 2021/22	Mae aelod agos o'r teulu mewn cartref gofal yn y sir;
M. James	**5.** Cymeradwyo Strategaeth Dementia Partneriaeth Gofal	Mae aelod agos o'r teulu wedi cael diagnosis o

	Gorllewin Cymru	ddementia;
H.A.L. Evans	**5.** Cymeradwyo Strategaeth Dementia Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru	Mae ei gŵr wedi cael diagnosis o nam gwybyddol ysgafn.

Ni chafwyd dim datganiadau ynghylch buddiannau personol na chwip waharddedig.

3. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law gan y cyhoedd.

4. ADRODDIAD BLYNYDDOL CYFARWYDDWR STATUDOL Y GWASANAETHAU CYMDEITHASOL 2021/22

[SYLWER: Roedd y Cynghorydd M. James wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach, ac arhosodd yn y cyfarfod wrth i'r Pwyllgor ei hystyried.]

Bu'r Pwyllgor yn ystyried Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol 2021/22 ynghylch perfformiad gwasanaethau gofal cymdeithasol yn y sir. Roedd yr adroddiad hefyd yn amlinellu heriau blwyddyn na welwyd ei thebyg o'r blaen oherwydd Covid-19 ac yn tynnu sylw at y meysydd hynny oedd i gael eu datblygu yn y flwyddyn gyfredol.

Roedd yn ofynnol yn statudol i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol adrodd yn flynyddol wrth y Cyngor ar berfformiad yr ystod gyfan o Wasanaethau Cymdeithasol a'r modd y cânt eu darparu, yn ogystal â chynlluniau ar gyfer eu gwella.

Nodwyd mai adroddiad drafft oedd hwn o hyd a bydd yn cael ei ddiwygio ymhellach cyn ei gwblhau.

Roedd y canlynol ymhlith y cwestiynau/sylwadau a godwyd ynghylch yr adroddiad:-

- Cytunodd Pennaeth y Gwasanaeth Plant a Theuluoedd i gadarnhau'r sefyllfa bresennol o ran y Grant Cymorth Tai;
- Mewn ymateb i gwestiwn dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymunedol fod y ffigwr o 57% o ran y rhai oedd wedi dweud eu bod yn gallu gwneud y pethau oedd yn bwysig iddynt, yn eithaf cyson â'r blynyddoedd blaenorol;
- Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol, mewn ymateb i ymholiad, y byddai'r Fframwaith Gofal Cartref newydd, gobeithio, yn mynd i'r afael â'r heriau sy'n gysylltiedig â darparu gofal cartref mewn ardaloedd gwledig a oedd wedi'u gwaethygu gan brinder gweithlu;
- Mewn ymateb i ymholiad ynghylch a oedd y gyfradd gyflog o £13 yr awr ar gyfer gweithwyr gofal cartref mewnol yn deg o ran eu cyfrifoldebau, dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymunedol er bod cyfraddau cyflogau ac amodau gwasanaeth wedi gwella'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf, yn enwedig yn Sir Gaerfyrddin, fod lle i wneud cynnydd.
- Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Integredig fod darparu gofal ymataliaeth dros nos i bobl a oedd yn gaeth i'r gwely yn heriol a bod yn

rhaid edrych ar bob achos yn unigol gan ddefnyddio arbenigedd y nyrs ymataliaeth;

- Mewn ymateb i sylw a wnaed am yr angen i gynyddu nifer y staff gofal sy'n gallu sgwrsio yn Gymraeg, dywedodd y Pennaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion fod Bwrdd yr Iaith Gymraeg mewn Gofal Cymdeithasol a Thai y mae'n gadeirydd arno. Cynhaliwyd sesiwn gweithdy yn ddiweddar i adnewyddu ei strategaeth ac roedd cynllun gweithredu'n cael ei lunio ar hyn o bryd. Cytunodd i roi manylion am ganran y staff sy'n gallu siarad Cymraeg a phwysleisiodd y gofynnir i ddefnyddwyr gwasanaeth bob amser am eu dewis iaith. Roedd darpariaeth hefyd ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth â nam ar eu clyw.

PENDERFYNWYD

4.1 ARGYMELL I'R CABINET fod yr adroddiad yn cael ei dderbyn;

4.2 bod Cadeirydd y Pwyllgor yn anfon llythyr at Lywodraeth Cymru yn ailadrodd pwysigrwydd cryfhau'r strwythurau sydd ar waith o ran plant sy'n cael Addysg Ddewisol yn y Cartref.

5. CYMERADWYO STRATEGAETH DEMENTIA PARTNERIAETH GOFAL GORLLEWIN CYMRU

[SYLWER: Roedd y Cynghorwyr M. James a H.A.L. Evans wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach, a bu iddynt aros yn y cyfarfod wrth i'r Pwyllgor ei hystyried.]

Ystyriodd y Pwyllgor Strategaeth Dementia Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru. Roedd y strategaeth ranbarthol hon wedi'i llunio mewn partneriaeth â Chyngor Sir Caerfyrddin, Cyngor Ceredigion a Chyngor Sir Penfro, y Bwrdd Iechyd a phartneriaid yn y trydydd sector yn ogystal â phobl â dementia, eu gofalwyr, ac aelodau o'r teulu ledled Cymru.

Roedd yr adroddiad yn cefnogi sawl amcan allweddol yn y Cynllun Corfforaethol, a'r Amcan Llesiant i gefnogi pobl hŷn er mwyn iddynt heneiddio'n dda a chadw'u hurddas a'u hannibyniaeth wrth wneud hynny. Byddai cymeradwyo'r Strategaeth yn galluogi gwasanaethau i gael eu darparu yn unol ag anghenion y gymuned.

Roedd yr adroddiad yn gofyn i Gyngor Sir Caerfyrddin gymeradwyo'r strategaeth a oedd yn mynd drwy'r broses ddemocrataidd yng Ngheredigion a Sir Benfro ar yr un pryd. Roedd eisoes wedi cael ei gymeradwyo gan y Bwrdd Iechyd.

Roedd y canlynol ymhlith y cwestiynau/sylwadau a godwyd ynghylch yr adroddiad:-

- Cadarnhaodd Pennaeth y Gwasanaethau Integredig fod rhai elfennau o'r strategaeth eisoes yn cael eu cyflawni ond bod angen nodi'r gwasanaethau sydd ar gael ac unrhyw fylchau gyda'r bwriad o ddatblygu mentrau newydd, mwy di-dor;
- Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Integredig, mewn ymateb i gwestiwn, y byddai'r strategaeth yn ymdrechu i sicrhau mynediad teg i wasanaethau sy'n gysylltiedig â dementia ar draws y sir.

PENDERFYNWYD ARGYMELL I'R CABINET fod Strategaeth Dementia Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru yn cael ei chymeradwyo.

6. ADRODDIAD ALLDRO CYLLIDEB REFENIW 2021/22

Bu'r Pwyllgor yn ystyried Adroddiad Alldro'r Gyllideb Refeniw ar gyfer 2021/22 a oedd yn nodi'r sefyllfa ariannol fel yr oedd ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Nodwyd bod y Gwasanaeth Gofal Cymdeithasol ac Iechyd yn dangos amrywiant net o -£2,264k o gymharu â chyllideb gymeradwy 2021/22.

Roedd yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am y canlynol:-

- Crynodeb o'r sefyllfa ar gyfer y Pwyllgor Craffu Gofal Cymdeithasol ac Iechyd.
- Adroddiad ar Brif Amrywiannau cyllidebau y cytunwyd arnynt;
- Amrywiannau manwl;
- Manylion y sefyllfa Monitro Arbedion ar gyfer diwedd y flwyddyn.

PENDERFYNWYD bod yr adroddiad yn cael ei dderbyn.

7. ADRODDIAD MONITRO CYLLIDEB CYFALAF A REFENIW 2022/23

Bu'r Pwyllgor yn ystyried yr Adroddiad Monitro ynghylch y Gyllideb Refeniw a'r Gyllideb Gyfalaf ar gyfer y Gwasanaeth Gofal Cymdeithasol ac Iechyd a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa gyllidebol fel yr oedd ar 30 Mehefin 2022, mewn perthynas â blwyddyn ariannol 2022/23.

Roedd y Gwasanaeth Gofal Cymdeithasol ac Iechyd yn rhagweld gorwariant o £538k ar y gyllideb refeniw. Roedd y prif amrywiannau ar gynlluniau cyfalaf yn dangos gwariant llawn rhagweladwy o gymharu â chyllideb net o £397k.

Mewn ymateb i ymholiad cadarnhaodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymunedol fod achlysuron yn y gorffennol pan oedd Llywodraeth Cymru wedi clustnodi symiau untro i alluogi darparu mwy o gapasiti i ateb y galw o ran iechyd a gofal cymdeithasol a gwrthbwyso pwysau gwir gost heb orfod torri gwasanaethau mewn mannau eraill.

CYTUNWYD bod yr adroddiad yn cael ei dderbyn.

8. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR CRAFFU GOFAL CYMDEITHASOL AC IECHYD 2021/22

Bu'r Pwyllgor yn ystyried Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Craffu Gofal Cymdeithasol ac Iechyd 2021/22. Paratowyd yr adroddiad hwn er mwyn cydymffurfio ag Erthygl 6.2 o Gyfansoddiad y Cyngor sy'n nodi bod yn rhaid i bob Pwyllgor Craffu baratoi adroddiad blynyddol sy'n egluro gweithgareddau'r Pwyllgor dros y flwyddyn flaenorol.

Roedd yr adroddiad yn cynnig trosolwg o waith y Pwyllgor yn ystod blwyddyn y cyngor 2021/22 ac yn cynnwys gwybodaeth ynghylch y canlynol:-

• Trosolwg o'r blaengynllun gwaith
• Y materion allweddol a ystyriwyd
• Materion oedd wedi'u cyfeirio at y Bwrdd Gweithredol neu Bwyllgorau Craffu Eraill, neu ganddynt

- Adolygiad Gorchwyl a Gorffen
- Sesiynau Datblygu
- Presenoldeb yr Aelodau yn y cyfarfodydd

PENDERFYNWYD bod yr adroddiad yn cael ei dderbyn.

9. CYNLLUN WAITH Y PWYLLGOR CRAFFU IECHYD A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL AR GYFER 2022/23

Ystyriodd y Pwyllgor ei Flaengynllun Waith ar gyfer blwyddyn nesaf y cyngor. Roedd y Cynllun wedi'i lunio mewn sesiwn anffurfiol i'r Pwyllgor a gynhaliwyd ym mis Medi ac roedd yn nodi'r rhaglen waith bresennol ar gyfer 2022/23.

Nodwyd ei bod yn ofynnol yn ôl Cyfansoddiad y Cyngor i bob Pwyllgor Craffu ddatblygu a chyhoeddi blaengynllun gwaith blynyddol, gan nodi materion ac adroddiadau sydd i'w hystyried yn ystod blwyddyn y cyngor.

PENDERFYNWYD cadarnhau Blaengynllun Gwaith y Pwyllgor Craffu Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 2022/23.

10. EGLURHAD AM BEIDIO Â CHYFLWYNO ADRODDIADAU CRAFFU

Cafodd y Pwyllgor eglurhad am beidio â chyflwyno'r adroddiadau craffu canlynol:-

- Adroddiad Rheoli Perfformiad Chwarter 1
- Adroddiad Blynyddol y Cyngor ar Amcanion Llesiant.

PENDERFYNWYD nodi'r eglurhad am beidio â chyflwyno'r adroddiadau.

11. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR GOFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR Y 26AIN IONAWR 2022

PENDERFYNWYD llofnodi bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 26 Ionawr 2022 yn gofnod cywir.

_____ _____

CHAIR **DATE**